**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17 Mehefin 2013**

**PERFFORMIAD ARIANNOL 2012-2013**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi adolygiad i'r Aelodau o berfformiad ariannol yr Awdurdod yn 2012-13.

2 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio ar 3 Mehefin 2013 gan ei fod wedi cael y dasg o sicrhau archwiliad effeithiol o unrhyw adroddiadau ariannol a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub yn seiliedig ar eu darganfyddiadau. Nid oedd gan Aelodau'r Pwyllgor Archwilio unrhyw sylwadau pwysig ac nid oeddent yn gallu canfod unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad, a byddent yn argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod.

## Cyflwyniad

3 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gweithgarwch ariannol am y flwyddyn 2012-13 er mwyn sicrhau bod yr Aelodau'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol yr Awdurdod.

4 Mae rhan gyntaf yr adroddiad yn adolygu gwariant refeniw 2012-13 o'i gymharu â'r gyllideb, gyda'r dadansoddiad ariannol yn Atodiad A. Mae ail ran yr adroddiad yn rhoi sylwadau am y Cronfeydd a'r Darpariaethau sydd gan yr Awdurdod; mae'r darpariaethau a'r newidiadau arfaethedig yn Atodiad B. Mae adran nesaf yr adroddiad yn edrych ar gynlluniau a gafodd arian grant, gyda dadansoddiad manwl yn Atodiad C. Mae rhan olaf yr adroddiad yn trafod y gweithgarwch yn y flwyddyn mewn perthynas â chyfalaf; gellir cael y manylion yn Atodiad D.

## Cefndir

5 Y flwyddyn ariannol hon oedd ail flwyddyn y strategaeth dair blynedd y cytunodd yr Aelodau arni er mwyn lleihau’r gyllideb oherwydd pwysau gan Lywodraeth Ganol i gyflawni un o’u prif bolisïau. Y targed arbedion ar gyfer 2012-13 oedd £815k, gyda’r rhan fwyaf yn dod o ofal tân rheng flaen (£500k) drwy newid y system gylchrestru. Disgwylid y gellid sicrhau’r gostyngiad yn nifer y diffoddwyr tân rheng flaen drwy ymadawiadau naturiol; y rhan fwyaf drwy ymddeoliadau. Bu’r strategaeth yn llwyddiannus, a chyrhaeddwyd y targedau, ynghyd â rhagor o arbedion o ganlyniad i reoli’r gyllideb yn ofalus a bod yn ymwybodol y bydd angen rhagor o arbedion yn y dyfodol.

## Gweithgarwch Refeniw

### Gweithwyr

6 Fel y gwelir yn y graff, mae cyfran fawr o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymwneud â chyflogau; 67% yn 2012-13. Mae hyn yn gyfran is nag yn 2011-12 pan oedd cyflogau yn 71% o’r gwariant ac yn 73% yn 2010-11. Mae’r gostyngiad yng nghostau cyflogau dros y tair blynedd yn dangos llwyddiant y strategaeth y cytunodd yr Aelodau arni i wneud arbedion drwy newid y modd y darperir gwasanaethau. Ar y cyfan, roedd tanwariant o £1,177k mewn perthynas â chyllideb net cyflogau, sydd fymryn yn uwch na’r amcangyfrif o £923k a ddarparwyd i’r Aelodau ym mis Mawrth 2013. Mae’r arbediad ychwanegol yn bennaf oherwydd llai o gostau hyfforddiant pan fo arian grant wedi gwrthbwyso gwariant yn yr ychydig fisoedd diwethaf, a’r ffordd ddarbodus a gafwyd wrth adrodd yr amcangyfrifon alldro ar gyfer ffioedd digwyddiadau fel bod modd ymorol am unrhyw hapddigwyddiadau posibl.

7 Mae gorwariant mewn perthynas â chyllideb pensiynau oherwydd rhai ymddeoliadau ar sail afiechyd yn ystod y flwyddyn; nid oedd y rhain yn rhan o’r amcangyfrif gwreiddiol, ac nid ydynt yn cael eu hariannu trwy’r cyfrif pensiynau. Mae’r gorwariant ar bensiynau Llywodraeth Leol oherwydd y taliad a wnaed gan y cyflogwr i’r gronfa bensiynau i ymorol am gostau gweithwyr sydd wedi ymddeol yn gynnar o ganlyniad i ddileu swyddi.

8 Gellir priodoli'r tanwariant ar Staff Cefnogol i ailstrwythuriad sydd wedi arwain at swyddi gweigion yn cael eu llenwi yn hwyrach na'r disgwyl a nifer o swyddi heb gael eu llenwi ar hyn o bryd. Gyda'r angen i wneud arbedion yn y blynyddoedd i ddod, disgwylir cael gwared ar nifer o'r swyddi gweigion hyn.

9 Mae'r tanwariant ar ddiffoddwyr tân y system ar gael yn ôl y galw (system RDS) wedi digwydd oherwydd gostyngiad mewn ffioedd hyfforddi a ffioedd digwyddiadau gan na fu recriwtio am y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Nid yw'r gostyngiad yng nghostau diffoddwyr tân y system RDS wedi effeithio ar wasanaethau rheng flaen oherwydd bod y gofal ar rai gorsafoedd y system RDS wedi ei ddarparu gan ddiffoddwyr tân amser cyflawn, yn bennaf o'r gronfa staff (pan gyflwynwyd system gylchrestru newydd ar gyfer diffoddwyr tân amser cyflawn, sefydlwyd cronfa er mwyn darparu gofal pan fo absenoldebau, a'r gronfa'n cynnwys swyddi na chafodd rôl ar y gylchrestr; yn wirfoddol y maent yn aelodau o'r gronfa).

10 Mae gorwariant ar y gyllideb amrywiol, a hynny'n bennaf oherwydd cynnydd yng nghyfraniad yswiriant gwladol y cyflogwyr sy'n ddyledus i ddefnyddwyr ceir prydles yn dilyn adolygiad gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

11 Mae'r tanwariant ar gyllideb y Prif Swyddogion yn ymwneud â swydd wag Prif Swyddog Cynorthwyol sydd heb ei llenwi yn dilyn ymddeoliad deiliad blaenorol y swydd.

## Adeiladau

12 Mae'r diffyg yng nghyfrif masnachu Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl yn cael ei gofnodi ar y Refeniw ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r diffyg yn y cyfrif £18k yn llai o'i gymharu â'r llynedd oherwydd ailstrwythuro'r staff ac incwm nad oedd wedi'i adnabod yn blynyddoedd cynt. Mae cyfrif masnachu Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl wedi ei gyllidebu i gwrdd â'r costau dros y flwyddyn, a dyma'r flwyddyn gyntaf pryd y mae'r gwaith yno wedi dod yn agos at gwrdd â'r costau.

13 Mae gorwariant yn y gyllideb atgyweirio a chynnal a chadw a'r gyllideb gosodiadau a ffitiadau, a hynny oherwydd ailddosbarthu rhai o'r eitemau bychain o wariant o gyfalaf i refeniw. Bydd hyn yn

arwain at rywfaint o arbedion yn y blynyddoedd i ddod ar ffioedd ariannu cyfalaf oherwydd y bydd y costau refeniw yn llai.

14 Mae’r costau ynni wedi codi’n sylweddol, ac er bod cynlluniau yn eu lle i leihau faint a ddefnyddir mae’r cynnydd yng nghost uned yn fwy na’r arbedion a gafwyd o ganlyniad i ddefnyddio llai. Gellir priodoli’r gorwariant ar yr Ardreth Annomestig Genedlaethol NNDR yn bennaf i’r cynnydd yn y cyfraddau sy’n daladwy ar gyfer Llangefni yn dilyn ailwerthuso’r safle ar ôl ei hadnewyddu yn ddiweddar.

15 Mae’r gorwariant ar Rhent oherwydd prynu’r Pencadlys yn ddiweddar, gan fod hyn wedi arwain at arbedion ar rhent ond rhagor o gostau o dan Ariannu Cyfalaf. Y sefyllfa net yw arbediad blynyddol i’r Awdurdod, a’r Awdurdod yn berchen ar yr adeilad.

**Cludiant**

16 Ar y cyfan, mae mymryn o danwariant yn y gyllideb Cludiant, gyda thanwariannau mewn meysydd eraill yn gwrthbwyso gorwariannau wrth rai penawdau. Mae’r cynnydd ym mhrisiau tanwydd, yswiriant a chydrannau wedi eu gwrthbwyso gan lai o gostau oherwydd y gostyngiad yn y gweithlu.

**Cyflenwadau**

17 O dan y pennawd Cyflenwadau a Gwasanaethau, mae gorwariant ar Offer yr Ochr Weithredol oherwydd cynnydd mewn lefelau stoc pan fo newid yng ngwerth stoc yn cael ei wrthbwyso gan refeniw. Mae gwerth stoc wedi codi, yn bennaf oherwydd y gofyniad i gadw lefelau uwch o rai eitemau er mwyn ymdrin â gofynion y gwasanaeth.

18 Mae’r gwariant ar Argraffu ac Offer Swyddfa yn llai oherwydd newidiadau mewn arferion gweithio a bod yn ddoethach wrth gaffael.

19 Mae’r gorwariant ar Gostau Cyfrifiadurol oherwydd penderfyniad yr Uwch Dîm Rheoli i fuddsoddi mewn rhagor o offer cyfrifiadurol yn benodol ar gyfer staff y gwasanaeth ar y rheng flaen. Bydd yr offer yn gymorth i ddarparu gwasanaethau ac i arbed costau ar ad-daliadau cyfalaf yn y dyfodol.

20 Mae tanwariant ar gostau Cyfathrebiadau oherwydd oedi wrth roi’r gwaith datblygu ar waith, ac mae hynny wedi arwain ar arbediad at gostau Firelink a rhenti llinellau yn y flwyddyn gyfredol.

21 Bu gostyngiad mewn premiymau yswiriant yn dilyn proses dendro gystadleuol.

22 Cytunodd yr Aelodau i ariannu’r ffioedd sy’n gysylltiedig â phrynu’r Pencadlys o’r gyllideb refeniw er mwyn arbed ad-daliadau cyfalaf yn y blynyddoedd i ddod.

**Gwasanaethau Cefnogol**

23 Mae’r gorwariant ar Reoli Cyfleusterau yn cael ei wrthbwyso’n rhannol gan gynnydd mewn incwm o ffioedd cyfalaf. Dangosir hyn yn yr adran incwm ar dudalen olaf yr atodiad. Fodd bynnag, ni ellir adennill yr holl gostau ychwanegol, a hynny oherwydd llithriant ar y rhaglen gyfalaf a arweiniodd at sefyllfa lle’r oedd staff yr adran gyfleusterau yn gweithio mwy ar y rhaglen gynnal a chadw flynyddol na ellir ailgodi tâl amdanynt.

24 Mae’r costau sy’n gysylltiedig â chyngor cyfreithiol cyflogaeth yn uwch na’r gyllideb wreiddiol oherwydd bod angen ymgynghori â hwy ynghylch nifer o faterion sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn.

**Ariannu Cyfalaf**

25 Mae ffioedd dyledion sy’n gysylltiedig â’r rhaglen gyfalaf yn llai na’r gyllideb wreiddiol oherwydd bod cyfraddau llog isel yn gyffredin, ynghyd â’r defnydd o fenthyciadau tymor byr y tu allan i’r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a’r oedi ar rai prosiectau mawr megis Wrecsam, Tywyn a Nefyn.

26 Mae ffioedd prydlesu yn uwch na’r gyllideb o ganlyniad i ailstrwythuro’r portffolio prydlesu i alluogi’r Awdurdod i arbed arian yn y tymor hir, gyda’r costau prydlesu yn lleihau yn y dyfodol.

**Incwm**

27 Mae’r incwm o werthiant wedi cynyddu ar ôl gwerthu nifer o gerbydau a oedd wedi eu dadgomisiynu.

28 Mae’r incwm o alwadau Gwasanaethau Arbennig yn llai na’r gyllideb oherwydd gostyngiad yn nifer y digwyddiadau y gallai’r Awdurdod godi tâl amdanynt. Bu gostyngiad hefyd mewn incwm a enillwyd o ganlyniad i gyrsiau hyfforddi allanol oherwydd penderfynwyd gwneud defnydd mwy effeithiol o’r adnoddau i gyflwyno’r neges diogelwch tân cymunedol.

29 Mae’r llog ar falansau hefyd yn is na’r amcangyfrif gwreiddiol oherwydd bod cyfraddau llog isel yn gyffredin. Fodd bynnag, gwnaed iawn am hyn oherwydd y gostyngiad yn y llog i’w dalu ar fenthyciadau.

30 Incwm arall a ddaeth i law yw hawliad yswiriant am ddifrod i gerbydau, gyda’r gost atgyweirio wedi ei chynnwys o dan gostau cludiant.

**Tanwariant**

31 Mae’r tanwariant yn erbyn y gyllideb wedi ei reoli’n ofalus er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael i ymorol am wariant posibl ar ffioedd proffesiynol sydd wedi digwydd oherwydd rhai problemau gyda’r rhaglen gyfalaf (gweler paragraff 44 am fanylion pellach). Argymhellodd y Pwyllgor Archwilio hefyd y dylid neilltuo rhywfaint o’r tanwariant i ymorol am gynnydd posibl mewn cyfraddau llog rhag ofn na fydd modd talu’r llog ar y portffolio benthyciadau o’r ddarpariaeth gyllidebol gyfredol.

32 Cytunodd yr aelodau hefyd yn ystod y flwyddyn fod modd prynu’r tir yng Nglannau Dyfrdwy o’r tanwariant refeniw er mwyn gwneud arbedion yn y dyfodol (cyfarfod yr Awdurdod Tân 17 Rhagfyr 2012).

33 Cytunodd yr Aelodau i neilltuo £300k i wrthbwyso’r costau i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru o ôl-ddyddio cyfraniad pensiwn y cyflogwr ar gyfer diffoddwyr tân y system RDS a oedd yn gweithio rhwng 1 Gorffennaf 2000 a 5 Ebrill 2006 (cyfarfod yr Awdurdod Tân Rhagfyr 2012).

34 Er mwyn sicrhau bod gan yr uwch aelodau o’r staff y sgiliau angenrheidiol i ymorol am anghenion yn y dyfodol, cytunodd yr Aelodau i neilltuo arian o’r tanwariant i gyrsiau Rheoli Digwyddiadau na chyllidebwyd ar eu cyfer yn y gyllideb wreiddiol (cyfarfod yr Awdurdod Tân 17 Rhagfyr 2012).

35 Roedd yr Aelodau hefyd o blaid adeiladu Cronfa Gyffredinol i ddarparu rhywfaint o sicrwydd bod arian ar gael i gynorthwyo yn y blynyddoedd i ddod. Bydd hyn yn golygu y gall yr Awdurdod droi at y cronfeydd hyn yn hytrach na gofyn am gyfraniadau atodol gan yr Awdurdodau Cyfansoddol.

**Cronfeydd**

36 Cronfa yw 'gweithred wirfoddol gan yr Awdurdod i roi adnoddau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol'. Roedd gan yr Awdurdod £1,143 mewn cronfa gyffredinol ar 1 Ebrill 2012, ac oherwydd i'r gyllideb gael ei rheoli'n effeithiol, nid oedd yn rhaid defnyddio'r gronfa hon i ariannu gwariant yn 2012-13.

37 Peth darbodus yw i'r Awdurdod adeiladu Cronfa Gyffredinol, a disgwylir mai'r meysydd lle bydd yn cael ei defnyddio yw:-

- costau pontio posibl pan gyflwynir y strategaeth dair blynedd newydd;
- gwrthbwyso cynnydd ym mhrisiau tanwydd na chyllidebwyd ar ei gyfer; ac
- ymorol am unrhyw ymrwymiadau wrth gefn a allai godi.

38 O ganlyniad i drosglwyddo balans y tanwariant a neilltuo'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd y llynedd nad oes mo'u hangen mwyach, balans y gronfa gyffredinol fydd £1,609k. Nid yw balans y gronfa yn sylweddol o'i gymharu â'r cronfeydd cyffredinol sydd gan yr Awdurdodau Tân ac Achub eraill yng Nghymru.

39 Mae'r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd ac a gymeradwywyd gan yr Aelodau yn £216k:-

Cyrsiau Rheoli Digwyddiadau (paragraff 33) – £116k
Cronfa Log (paragraff 30) – £100k

**Darpariaethau**

40 Mae'r Awdurdod wedi gallu cadw Darpariaethau erioed. Darpariaeth yw 'arian wedi ei neilltuo pan fo gan yr Awdurdod ymrwymiad yn y presennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol (cyfreithiol neu ddeongliadol), a'i bod yn debygol y bydd setliad yn cael ei wneud rywbryd yn y dyfodol'. Roedd gan

yr Awdurdod ddwy Ddarpariaeth ar ddechrau'r flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn bu angen creu darpariaethau ychwanegol i ymorol am ymrwymiadau posibl. Rhoddir manylion y darpariaethau isod.

41 Mae gan yr Awdurdod Ddarpariaeth Bensiynau i ymorol am daliadau i'r gronfa bensiynau i ariannu ymddeoliadau ar sail afiechyd, ac i ymorol am gostau unrhyw lwmpsymiau ar sail afiechyd nad ydynt yn dod dan y cynllun pensiwn. Ni fu unrhyw symudiad yn y ddarpariaeth eleni oherwydd bu'n bosibl ariannu'r costau hyn eleni o'r gyllideb refeniw.

42 Gwnaethpwyd y rhan fwyaf o setliad yr ôl-daliad i ddiffoddwyr tân y system RDS yn ystod 2012-13. Mae taliadau'n dal i gael eu gwneud yn 2013-14 a disgwylir y bydd y ddarpariaeth yn ddigon i ymorol am unrhyw ôl-daliad sy'n weddill.

43 Derbyniodd diffoddwyr tân y system RDS ôl-daliad yn gysylltiedig â'u hawliad o dan Reoliadau Gweithwyr Rhan Amser (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2000. Nid oedd y cytundeb a gafwyd yn ymestyn i'r hawliad pensiynau. Mae'r trafodaethau'n parhau rhwng Undeb yr FBU a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Byddent yn rhoi mynediad yn ôl-weithredol i gynllun pensiwn y diffoddwyr tân. Gwnaed asesiad o'r costau i Awdurdod Tân Gogledd Cymru o ôl-ddyddio cyfraniad y cyflogwr i ddiffoddwyr tân y system RDS a oedd yn gweithio rhwng 1 Gorffennaf 2000 a 5 Ebrill 2006. Amcangyfrifir y gallai cyfanswm y gost i'r Awdurdod fod tua £960k. Oherwydd y posibilrwydd hwn, doeth fyddai neilltuo arian o'r tanwariant i wrthbwyso unrhyw ymrwymiadau yn y dyfodol rhag ofn y deuir i gytundeb. Felly, cynigir neilltuo £300k i wrthbwyso'r costau hyn.

44 Fel y gŵyr yr Aelodau, mae rhai problemau'n ymwneud â'r Rhaglen Gyfalaf, Prosiect Wrecsam yn benodol, ac ar hyn o bryd mae'r swyddogion wedi cael gwybod bod £880,400 yn ddyledus gan yr Awdurdod mewn ffioedd proffesiynol am waith a wnaed yn 2012-13. Gan nad yw'r problemau wedi eu datrys eto, doeth fyddai neilltuo'r arian hwn i ddarpariaeth gan nad yw'n glir a ellid dyrannu'r costau hyn i'r rhaglen gyfalaf.

## Cynlluniau sy'n derbyn Arian Grant

45 Mae'r Awdurdod wedi derbyn arian ar gyfer nifer o gynlluniau, yn bennaf gan Lywodraeth Cymru; cyfanswm yr arian a dderbynnir yw £2.3 miliwn. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o nifer o'r cynlluniau, a'r manteision a ddaw i'r gymuned o'u gweithredu. Y cynlluniau mwyaf a ariennir gan grant yw'r Ffenics, Ymyriadau, y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol, Dimensiynau Newydd, Firelink a Chydlynydd y Trydydd Sector. Ceir rhestr gynhwysfawr o'r cynlluniau yn Atodiad C.

## Gweithgarwch Cyfalaf

46 Gosodwyd y gyllideb gyfalaf wreiddiol yn Rhagfyr 2011, ac roedd yn seiliedig ar wariant newydd, ynghyd ag arian yn cael ei gario drosodd o flynyddoedd blaenorol.

47 Roedd rhagor o oedi cyn dechrau prosiect Wrecsam yn golygu bod y gwariant yn llai na'r disgwyl. Unwaith eto, mae'r gyllideb wedi ei chario drosodd er mwyn gofalu bod arian yn ei le ar gyfer cynllun Wrecsam.

48 Roedd tanwariant ar y gyllideb ar gyfer y gwaith cynnal a chadw a oedd yn yr arfaeth gan fod gwerth £143k o eitemau bychain o wariant cyfalaf ar waith cynnal a chadw wedi ei drosglwyddo i refeniw am y rhesymau a roddir ym mharagraff 12 uchod.

49 Roedd cynnydd yn y gyllideb ar gyfer gwaith Cydraddoldeb a Gwahaniaethau ar sail Anabledd oherwydd bod cyllideb wedi ei chario drosodd o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Y gyllideb ddiwygiedig am y flwyddyn oedd £663k; caiff y gyllideb dros ben ei chario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf.

50 Prynwyd y tir yr oedd ei angen ar gyfer Gorsaf Dân newydd yn Nefyn. Paratowyd y cynlluniau, a dechreuir ar y gwaith ar y safle yn Gorffennaf/Awst 2013. Bydd y gyllideb gyfalaf yn cael ei chario drosodd i 2013-14 i ofalu bod modd cwblhau'r cynllun.

51 Sicrhawyd y tir ar gyfer Gorsaf Dân newydd Tywyn. Caiff y gyllideb ei chario drosodd er mwyn gallu cwblhau'r cynllun.

52 Ar 6 Chwefror 2012, cymeradwyodd y Panel Gweithredol brynu Pencadlys GTAGC yn Llanelwy yn dilyn adroddiad yn rhoi gwybod i'r Aelodau am yr arbedion y gellid eu cael petai'r adeilad yn eiddo i'r gwasanaeth yn hytrach nag ar brydles. Cafodd y gwerthiant ei gwblhau fis Tachwedd 2012, a bydd yr arian cyfalaf ar gyfer y cynllun yn dod o'r arbedion ar y taliadau rhent.

53 Erbyn hyn, cwblhawyd prynu'r tir cyfagos i Orsaf Dân Glannau Dyfrdwy. Ariannwyd y cynllun drwy'r tanwariant refeniw fel yr amlinellir ym mharagraff 31 uchod.

**CASGLIAD**

54 Yn 2011-12, mae'r Swyddogion wedi gweithredu cynlluniau i sicrhau'r arbedion y cytunodd yr Aelodau arnynt dros gyfnod o dair blynedd. I'ch atgoffa, y targed arbedion ym mlwyddyn 3 (2013-14) yw £835k. Drwy gadw rheolaeth lem ar y gyllideb, llwyddwyd i gael rhagor o arbedion ym mlwyddyn 2 er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod mewn sefyllfa dda i gyrraedd y targedau arbedion yn y flwyddyn ddilynol ac, oherwydd y problemau sy'n ymwneud â'r rhaglen gyfalaf, mae ganddo ddigon o arian i gwrdd â'r ymrwymiadau hynny. Mae rheolaeth lem ar y gyllideb wedi sicrhau bod yr Awdurdod wedi gallu creu Cronfa Gyffredinol, sy'n £1.6 miliwn. Er bod £1.6 miliwn yn ymddangos yn uchel, mae hyn yn sicrhau bod arian ar gael i gynorthwyo yn y blynyddoedd i ddod ac yn golygu y gall yr Awdurdod dynnu'r arian hwn allan yn hytrach na gofyn am gyfraniadau atodol gan yr Awdurdodau Cyfansoddol. Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol o'r pwysau posibl yn y dyfodol, er enghraifft:

- codiadau cyflog,
- cynnydd ym mhris tanwydd,
- toriadau i'r Grant Cynnal Refeniw,
- cynnydd yng Nghyfraniadau Pensiwn y Cyflogwyr,
- gostyngiad mewn arian grant.

**ARGYMHELLIAD**

55 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo trosglwyddo'r tanwariannau i'r Cronfeydd a'r Darpariaethau fel y nodir ar dudalen 3 o Atodiad A.